

Pier Garth Bangor: Penblwydd yn 125 oed Rhaglen Ddigidol



Rhagair

“Dwi’n meddwl ei bod yn deg dweud mai’n pier yw trysor ein dinas arbennig, sy’n cynnig i bawb sy’n mentro arno rai o’r golygfeydd godidocaf y gallwch eu dychmygu. Bu’n gaffaeliad i’n dinas ers dros 125 o flynyddoedd, ac mae wedi gwasanaethu pobl y ddinas drwy’r amser hwn. Wynebodd y pier heriau niferus drwy ei oes, dim yn fwy efallai na’r atgyweiriadau strwythurol diweddar a olygodd fuddsoddiad anhygoel o dros £1m i sicrhau bod y strwythur hwn yn goroesi am y 125 mlynedd nesaf.”

Gyda’r gwaith strwythurol hwn wedi dod i ben, trown ein sylw at wella ymhellach ei osodiadau Fictoraidd sydd eisoes yn odidog, ac ehangu ei allu i gynnal digwyddiadau ac i fod yn gyrchfan adnabyddus i bobl o bell ac agos.

Hoffwn pe bawn wedi gallu nodi’r diwrnod hanesyddol hwn gyda gorymdaith fawr yn ysbryd yr un a agorodd y pier 125 o flynyddoedd yn ôl, eto arwydd o’r amserau yw nad ydym yn gallu gwneud hynny. Ond gallaf ddefnyddio’r gofod hwn i ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi mwynhau’r pier drwy gydol ei hanes ac i bawb sydd wedi edrych ar ei ôl. Allwn ni ddim troi allan fel dinas heddiw i ddathlu ei ben-blwydd pwysig, ond gallwn ac fe fyddwn, yn dathlu’r pier yn ei ffordd ein hunain, p’un ai i ddal crancod gyda’r teulu, prynu hufen iâ, dod yma ar ddêr cyntaf, cael coffi i gynhesu wrth wylio’r llanw a’r trai neu dim ond i stopio am ennyd i edrych ar olygfeydd Eryri o’r llecyn gwych hwn. Mae’r pier yn rhan o enaid y ddinas hon, mae’n rhan o hiraeth Bangor ac rwy’n edrych ymlaen yn fawr at weld ei hanes o hyn ymlaen” **Cyng Owen Hurcum, Maer Bangor**

“Fel y dywed Cyng Owen Hurcum, Maer Bangor, y pier yw enaid Bangor – yn cael ei garu gan y bobl leol, gan Fangoriaid sydd wedi symud i ffwrdd; gan ymwelwyr i’n dinas a’r ardal o gwmpas; a hefyd gan fyfyrwyr a chyn-fyfyrwyr ein prifysgol.

Agorwyd y pier pan oedd fy nhaid, a anwyd ac a fagwyd yn Hiracl, yn un flwydd oed - pan nad oedd Ffordd y Traeth yn bodoli hyd yn oed, a phan oedd Porth Penrhyn yn borthladd prysur, ac adeiladau llongau ar ei anterth.

Byth ers iddo agor, mae wedi caniatáu cynifer o atgofion i gynifer o bobl - dwi’n siarad byth â hefyd â phobl ar y pier sydd â’u straeon eu hunain, fel dywedodd Owen, dêr cyntaf, dal crancod, atgofion o ddefnyddio’r fferi i Glyn Garth a Biwmares, plymio oddi ar y pier, gwirfoddoli yn un o’r ciosgau neu ddim ond ymlwybro’n araf i fwynhau’r golygfeydd ysblennydd.

Fel Cadeirydd Ffrindiau Pier Garth Bangor, rwy’n ei theimlo’n ddyletswydd ac yn fraint enfawr cael chwarae rhan mor agos yn ein pier prydferth, gan wybod ein bod yn helpu Cyngor y Ddinas i’w warchod i’r dyfodol, ac yn helpu i gefnogi a chwyddo cymuned y pier - cymuned o bobl leol, aelodau’r Cyfeillion ac ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr, gweithwyr a chynghorwyr Cyngor Dinas Bangor, deiliaid y ciosgs,



Y Cyfarwyddwr Dinesig Iwan Williams;
Maer Bangor Cyng Owen Hurcum;
Cadeirydd y Ffrindiau Avril Wayte

arlunwyr lleol y bydd eu gwaith ar werth yn y ciosgs cyn bo hir, a phawb arall sy'n ei garu.

Cyn bo hir, bydd ein ciosgau hyfryd coch (neu oren yn dibynnu ar y golau!) a phorffor ar agor, ac yn gwerthu nwyddau sy'n gysylltiedig â'r pier a grëwyd gan ein hartistiaid lleol, y cyfan i godi arian i adfer y pier, ac yn cael eu staffio gan ein byddin o wirfoddolwyr. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dod draw i ymweld ac i fwynhau popeth sydd gan ein pier bendigedig i'w gynnig."

Avril Wayte, Cadeirydd, Ffrindiau Pier Garth Bangor

Pier Garth Bangor: Ffeithiau Allweddol

- Yn dilyn Bil Seneddol yn 1893, dechreuodd gwaith ar y pier 1550 troedfedd (yn cynnwys glanfa pontŵn) i ddyluniad J.J. Webster o Lundain. Agorwyd y Pier ar 14 Mai 1896 gan yr Arglwydd Penrhyn. Roedd wedi costio £17,000. Deuai agerlongau o Douglas, Lerpwl, Blackpool, ymysg llefydd eraill ac roedd adloniant *Pierrot* a'i ffrindiau.
- Yn 1914, bu'r llong gargo Christiana mewn gwrthdrawiad â'r pier. Gwnaed atgyweiriadau gan y Royal Engineers, a adeiladodd bont dros dro rhwng y darnau oedd heb eu difrodi. Tynnwyd y lein fach baciau 3 troedfedd, oedd yn mynd ar hyd y pier, yr adeg yma.
- Yn 1920, sgrapiwyd y Clio. Hen long ynnau'r llynges oedd y Clio oedd wedi'i hangori oddi ar ben y pier ers nifer o flynyddoedd. Defnyddiwyd y llong bren fel llong hyfforddi i fechgyn (hyd at 280) a oedd yn amddifad neu wedi bod mewn trafferth. Bu rhai'n byw ar fwrdd y Clio am bedair neu bum mlynedd.
- Aeth y Llong Ysgol HMS Conway, oedd wedi'i hangori oddi ar y pier o 1941 i 1949, yn erbyn y creigiau yn 1953 pan oedd yn cael ei halio i gael gwaith atgyweirio. Anfarwolwyd y Conway mewn gwydr ar y pier ac fe'i dadorchuddiwyd yn 2017.
- Caewyd y pier am resymau diogelwch ar ddiwedd 1971. Aeth ei pherchnogaeth i Gyngor Bwrdeistref Arfon yn 1974, a benderfynodd ddymchwel y strwythur. Fodd bynnag, gwrthwynebodd Cyngor y Ddinas a chafwyd statws adeilad rhestredig i'r pier, un o'r gorau ym Mhrydain. Yn y diwedd, cymerwyd y Pier drosodd gan Gyngor y Ddinas am 1c enwol.
- Gyda chymorth Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, y Swyddfa Gymreig a Chomisiwn Gwasanaethau'r Gweithlu, dechreuodd y gwaith adfer ym mis Tachwedd 1982 ac ail-agorwyd y pier yn swyddogol ar 7 Mai 1988 gan Ardalydd Môn.
- Derbyniwyd y Gymdeithas Pierau Cenedlaethol yn aelod o bartneriaeth ddinesig [Balchder Bangor](#) a chytunodd i wneud popeth a allai i hybu a chynnal diddordeb mewn diogelu a pharhau i fwynhau Pier Garth.
- Fodd bynnag, ym mis Tachwedd 2011 adroddwyd fod angen £2m ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol i bier Bangor – gyda honiadau fod cynnal a chadw wedi'i "anwybyddu" ers yr 80au. Clywodd cyfarfod cyhoeddus y mis hwnnw gwynion nad oedd digon yn cael ei wneud i ddod ag ymwelwyr i'r ardal. Cododd anghydfod rhwng y bobl leol a oedd eisiau mwy o lais yn sut roedd y pier yn cael ei reoli a Chlerc y Cyngor oedd yn teimlo mai'r dull gorau oedd i bobl sefyll etholiad i fod yn gynghorwyr lleol.
- Adroddodd y Cyngor ei fod wedi crynhoi cronfa o un filiwn o bunnoedd ar gyfer cynnal a chadw ond y gallai fod angen dwywaith y swm hwn oherwydd ystyriaethau amgylcheddol yn ystod y gwaith. Erbyn Chwefror 2012, roedd h'n amlwg fod cyllideb y Cyngor yn fyr o filiwn o bunnoedd a chyhoeddodd y Cyngor ei fod yn chwilio am gymorth grant i helpu i dalu am adfer y pier.
- Ym mis Tachwedd 2014, cyhoeddwyd fod Cyngor y Ddinas wedi cyflogi ymgynghorwyr i'w helpu gyda'u cais am Gyllid Treftadaeth y Loteri (HLF) i adnewyddu'r Pier Gradd II rhestredig, ychwanegu mwy o giosgau a chyflwyno arddangosfeydd i adrodd hanes y strwythur a'r ddinas. Gofynnwyd i'r

ymgynghorwyr dynnu ynghyd y mewnbwn technegol ac arbenigol oedd ei angen i ddangos y gwaith angenrheidiol i'r strwythur ac i roi mewnbwn pensaernïol i'r dyluniadau i ail-adeiladu ciosgau newydd. Cyflwynwyd cais ym mis Mawrth i'r HLF am grant o rhwng £50,000 ac £80,000 gyda chefnogaeth gref y gymuned leol. Ond, ym mis Mehefin 2015, gwrthodwyd y cais.

- Ym mis Awst 2017 gwelwyd dechrau prosiect adfer gwerth £1m a anelwyd at sicrhau dyfodol y pier am flynyddoedd i ddod. Roedd y prosiect, a ariannwyd yn uniongyrchol gan Gyngor Dinas Bangor, yn golygu gwaith i gryfhau'r strwythur a hefyd rhoi canllawiau newydd ar ddec y pier. Roedd angen cryn dipyn o sgaffaldiau ar hyd ochrau'r pier ac roedd yn rhaid i'r gwaith gydymffurfio â mesurau iechyd a diogelwch llym.
- Ym mis Mawrth 2018, adroddodd y *Bangor Aye* fod adferiad £1m Pier Garth Bangor yn parhau i ddod yn ei flaen yn dda. Disgwylid i'r gwaith gymryd hyd at bedair blynedd i'w gwblhau. Ym mis Ionawr 2019, adroddwyd y byddai Cam Tri o adfer y pier, ardal pen y pier, wedi'i gwblhau cyn y nod o ddiwedd Mawrth. Roedd y gwaith wedi golygu ail-adeiladu'n sylweddol elfennau strwythurol y pier yn ogystal â gwelliannau i'r haearn bwrw, canllawiau, adeiladau, ail-beintio, trwsio a siotsgwrio darnau lle'r oedd y metel wedi gwanhau a rhydu.
- Ym mis Mai 2019, daeth mwy na 2,000 o westeion i ddigwyddiad Y Wledd Symudol ar y pier. Roedd dewis eang o fwyd a diod ar gael yn cynnwys bwyd môr, seigiau cig oen ac eidion a jin a chwrw o fragdai a distyllfeydd lleol. Drwy'r digwyddiad cafwyd cerddoriaeth fyw gan fandiau a cherddorion lleol.
- Erbyn Mehefin 2020, roedd cynlluniau ar droed i greu Grŵp Menter Pier Bangor fyddai'n cynnwys Cyngor Dinas Bangor, y busnesau preifat sy'n gweithredu ar y pier, a grŵp newydd o wirfoddolwyr cymunedol – Gwirfoddolwyr Pier Bangor. Ailstrwythurwyd y grŵp yn ddiweddarach a'i ail-enwi'n Ffrindiau Pier Garth Bangor ac ym mis Mawrth 2021, llofnodwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gan Gyngor Dinas Bangor a Ffrindiau Pier Garth Bangor. Cymerodd y Ffrindiau eu cartref newydd ar y Pier (Ciosg Rhif 3) ym mis Ebrill 2021, lle i werthu nwyddau sy'n gysylltiedig â'r pier ac i'r wirfoddolwyr helpu ymwelwyr.

Ar 14 Mai, 125 mlynedd i'r diwrnod yr agorwyd y pier yn ffurfiol, dadorchuddiwyd plac er cof am Faer y Ddinas o flaen nifer cyfyngedig o westeion mewn seremoni fechan oherwydd bod pandemig Covid-19 yn atal cynulliadau mawr.



Llun: historypoints.org

Hanes y Pier


Tarddiad y rhan fwyaf o'r hyn rydym ni'n ei alw'n bier glan y môr oed yr angen i bobl allu mynd a dod oddi ar fferis teithwyr yn ofalus. Mor bell yn ôl â 1292, yn ôl adroddiad Sheriff yr adeg, un o'r fferis hyn oedd fferi Porthesgob, oedd yn cael ei gweithredu gan Esgob Bangor. Roedd gan hon lanfeydd yn Gorad y Gyt a Phenrhyn Garth ar y tir mawr ac yng Nghadnant, Porth Philip Ddu, Borthwen a chyn belled â Gallows Point ochr Ynys Môn. Byddai cyrraedd y lan wedi bod yn eithaf peryglus mae'n siŵr, ar jetis cyntefig oedd yn codi a gostwng gyda'r llanw.

Fferi'r Garth, oedd yn gweithredu o'r jeti carreg nesaf at ble saif Pier y Garth heddiw, oedd y prif fan croesi i Ynys Môn cyn adeiladu Pont Menai yn 1826, a pharhaodd fferi i groesi o'r jeti hwn am flynyddoedd lawer. Mae cofnodion diweddarach yn disgrifio, gyda chynnydd mewn traffig stemars rhwng Bangor, Lerpwl a phorthladdoedd eraill Gogledd Cymru, sut roedd yn rhaid rhwyfo'r teithwyr i'r lan mewn cychod bach, ac roedd llwytho a dadlwytho cargo yn hynod o heriol. Yn amlwg roedd angen gwell ffyrdd o ddatrys y problemau hyn ac felly yn 1885, dechreuodd Cyngor Dinas Bangor edrych ar sut gellid moderneiddio'r gwasanaethau fferi i fanteisio ar y traffig cynyddol ar y môr. Cafwyd trafodaethau gyda'r teulu Morgan, oedd wedi bod yn lesddeiliaid Fferi'r Garth am bron i ganrif a'r Comisiynwyr Eglwysig, a oedd yn berchen ar y fferi, ond ddim tan 1891 y llwyddodd y cyngor i gael yr hen iard lechi yn Garth a gwella'r lanfa garreg, gan alluogi gwasanaeth poblogaidd ddwywaith yr wythnos i Lerpwl ar stemar y Prince Ja Ja.

Yn y cyfnod hwn roedd pierau yn dechrau cael eu gweld fel atyniadau gwerthfawr i drefi glan môr a theimlid y byddai pier promenâd iawn ym Mangor, gyda'i lanfa ei hun, yn cynnig profiad unigryw i ymwelwyr a fyddai'n cyfuno teithiau pleser mewn stemars, amgylchedd naturiol arbennig o amrywiol, a golygfeydd gwych o fynyddoedd Eryri ac ar hyd y Fenai brydferth. Gofynnwyd i ddechrau i'r Mayoh Brothers o Fanceinion baratoi cynlluniau am bier ynghyd ac amcangyfrifon cost fel bod y cyngor yn gallu gofyn am ganiatâd gan y Bwrdd Masnach i godi strwythur fel hyn yn y Garth. Yn fuan cododd yr amcangyfrifon adeiladu cychwynnol o tua £14,000 i nes at £25,000 oedd yn cynnwys prynu Fferi'r Garth, gwella'r glanfeydd oedd yno'n barod a phrynu cychod fferi newydd. Byddai'r costau hyn yn cael eu talu drwy fenthyciad y byddai'r cyngor yn ymgeisio amdano gan y Bwrdd Llywodraeth Leol.

Fodd bynnag, nid oedd pawb yn hapus â'r cynigion a chodwyd gwrthwynebiadau taer i osod gwariant mor fawr ar ysgwyddau cyngor a oedd eisoes yn wynebu heriau ariannol difrifol. Serch hynny, yn dilyn ymchwiliad gan y Bwrdd Llywodraeth Leol yn 1893, cymeradwywyd y benthyciad ac roedd y cyngor yn rhydd i fynd ati i godi pier newydd. Penderfynodd y cyngor beidio â defnyddio'r Mayoh Brothers ar y prosiect ond gofyn i Mr John James Webster o Westminster i'w cynghori. Roedd Mr Webster yn beiriannydd pontydd profiadol iawn ac roedd hefyd wedi cynllunio'r Promenade Pier yn Dover a agorwyd yn 1893 ac oedd yn debyg i bier Bangor. Helpodd Webster i wneud cais am orchymyn Seneddol i adeiladu'r Pier a derbyniwyd y Cydsyniad Brenhinol ar ddiwedd Awst 1894, ac yn dilyn hynny fe'i cyflogwyd fel peiriannydd i'r prosiect. Dathlwyd pasio Bil Pier Bangor gyda gorymdaith fawr o gloc y dref i'r fferi

Ile cyflwynwyd allwedd arian i gatiâu'r fferi i'r cyngor gan Mr Morgan, cyn lesddeiliad Fferi'r Garth.



THE PROPOSED PIER FOR
BANGOR.
ENTHUSIASTIC MEETING IN FAVOUR
OF THE PROJECT.

North Wales Chronicle, 14 Hydref
1893

THE BANGOR PIER.

OPENING CEREMONY TO-DAY.

Bangor is making rapid progress in various directions, while other surrounding towns are content to rest on their oars. The latest addition to its many recent acquisitions is the magnificent pier which is being opened to-day (Thursday) by the Right Hon. Lord Penrhyn. The event will be made the occasion for a demonstration of great magnitude, and the inhabitants are eager and willing to participate in the rejoicings. A portion of the day will be observed as a holiday. Cheap excursions will be run to the town from the surrounding districts, and a large influx of visitors may be expected. The town is gaily decorated, and the weather is all that can be desired.

When the scheme to erect a pier was first mooted strenuous opposition was offered by a section of the ratepayers, and even a poll was demanded, the result of which proved that a great preponderance of the ratepayers was in favour of the scheme. That better landing facilities are necessary goes without saying. The old pier at low water was decidedly objectionable to timid people, who disliked the task of having to walk to the extreme end in order to get to the ferry boat. Another difficulty was experienced when landing passengers from the Liverpool steamers, and had there been better conveniences in the past for this purpose a larger number of visitors would undoubtedly have come to Bangor. Under the new order of things all this will be done away with. The Liverpool steamers will in future be able to land passengers at the pier head, and it may be assumed that steamers from Blackpool, Fleetwood, Southport, and other watering places, will make frequent trips to Bangor during the summer months. Our ancient city will thus come better known, and many who have seen and admired the beauty of the surrounding scenery will not rest content until they have become residents in the neighbourhood.

At ten o'clock this morning, the May-day procession, deferred for the purpose, took place. At two o'clock a procession, consisting of the Mayor and Corporation, Friendly Societies, &c., will be formed in order to escort Lord Penrhyn to the pier at Garth Point. On arrival there his lordship will be presented with a handsome address in album form, together with a gold key with which he will perform the ceremony of opening the pier gates, and formally declare the pier open. Lord Penrhyn, accompanied by the Mayor and Corporation, will then proceed to the pier head, where the Penrhyn Male Voice Choir (consisting of 120 voices), under the conductorship of Dr Roland Rogers, will render a selection of music. The general public during the ceremony will also be admitted on the pier at a charge of 1s each. During the afternoon the band of the 1st Cheshire and Carnarvonshire Artillery Volunteers will also play a selection of music at the pier head. In the evening the Mayor of Bangor entertains Lord Penrhyn, the members of the Council, the mayors of neighbouring towns, and other leading gentlemen of the district, at dinner at the George Hotel. At night there will be a display of fireworks and a procession of boats, illuminated by torches, on the Menai Straits.

HISTORICAL REMINISCENCES AND DES-

1896: Adeiladu'r Pier

Gwahoddwyd tendrau i adeiladu'r pier a rhoddwyd y contract i Alfred Thorne o Westminster, a oedd wedi gweithio ar nifer o brosiectau pier yn y DU a thramor. Dechreuodd y gwaith yn hydref 1894 a chymerodd ddeunaw mis i'w gwblhau. Fe'i hagogwyd yn swyddogol gan yr Arglwydd Penrhyn ar 14 Mai 1896 yn dilyn



gorymdaith drwy'r dref a daeth tyrfa o dros 5,000 ynghyd i wyllo'r seremoni agoriadol. Roedd y pier yn 1,500 troedfedd o hyd a 24 troedfedd o led ar hyd y rhan fwyaf o'i hyd gyda darn lletach ar y pen, 59 troedfedd o hyd a 99 troedfedd o led, lle'r oedd bandstand dan do ac yn arwain at lanfa arnofiol a phont drawst yn mynd ati. Roedd dwy giât fawr addurniadol, gyda phafiliwn bach bob ochr, yn sefyll wrth fynedfa'r pier ac roedd cyfres o bafiliynau mwy gyda chromen wedi'u gosod mewn cilfachau bob hyn a hyn ar hyd y dec. Mae'r rhan fwyaf o'r dyluniad gwreiddiol yn dal i sefyll a chredir yn gyffredinol fod y pier hwn gyda'r mwyaf cain yn y DU. Roedd y pier yn llwyddiant ysgubol gyda gwasanaethau stemar rheolaidd a mynych yn galw yn y lanfa newydd a niferoedd y teithwyr yn eu cannoedd o filoedd hyd at 1914. Roedd y pier yn lleoliad poblogaidd am adloniant hefyd yn darparu sioeau *pirot*, bandiau pres, perfformiadau amrywiol, cystadlaethau a gornestau nofio. Fodd bynnag, gyda lleoliadau eraill i sioeau amrywiaeth ar gael yn y ddinas, symudodd y cwmnïau perfformio o'r bandstand agored oedd yn dioddef gan y tywydd. Yn y diwedd caewyd ochrau'r bandstand i fyny er mwyn cael lle mwy

cysurus.

O'i agoriad yn 1886 tan fis Mawrth 1914, talodd dros 440,000 o bobl i ddefnyddio gwasanethau'r pier a 296,000 yn prynu gwasanaethau contract gyda thua'r un nifer yn mynychu adloniant y pier. Roedd tâl mynediad o 2d (tua 65c yn 2019) gyda thâl uwch o 4d i 6d (tua £1.30 i £1.95 yn 2019) am ddigwyddiadau arbennig. Byddai 6d tua 1 /14 o gyflog dyddiol crefftwr medrus.

DAMAGE TO BANGOR PIER
MEETING OF THE CITY COUNCIL.

A special meeting of the Bangor City Council was held on Tuesday evening to consider the reports of the Pier and Ferry Committee on the damage to the pier by the steamer "Christiana" during the storm on December 4th.

The committee reported that a meeting was held on Dec. 5th having inspected the damage done to the pier, when it was resolved "that the Town Clerk should inform the Liverpool and Mersey Straits Steamship Co (the owners of the "Christiana") of the accident, and state that the Corporation held them responsible for making good the damage." It was further resolved "that the ferry be worked from the old jetty when the tide and other circumstances permit, between the hours of 6 a.m. and 9 p.m., and that the surveyor fence off the damaged portion of the Pier."

At a meeting of the committee on December 8th, the Town Clerk and Mr O. R. Hughes were asked to take all the evidence at once while the facts were fresh in mind.

At a meeting of the committee three days later, the Town Clerk read the proofs of the evidence taken, and the Town Clerk suggested that the evidence be submitted to counsel for his advice on the matter. After a long discussion it was resolved that the Town Clerk obtain the evidence of certain other persons mentioned. It was further resolved that notices be fixed at the toll booths to the effect that until the pier is put into working order, persons using the ferry do so at their own risk.

The committee again met on December 16th, when the question of making temporary arrangements so as to work the ferry continually was considered, and on being put to the vote it was carried that some arrangement be made to maintain the ferry traffic. A sub-committee, consisting of Messrs Caesar, Cool, O. R. Hughes, and John Williams, was appointed to consider the question and report to the next ordinary meeting. The Town Clerk reported that he had now obtained all the evidence so far available, and suggested that the same be submitted to counsel for his opinion. It was decided to leave the matter in the Town Clerk's hands with instructions to engage what assistance he may think necessary.

The Mayor stated that the Council had better discuss the subject in private, and they resolved themselves into committee accordingly.

After a discussion it was decided "that a temporary gangway be constructed to connect the two portions of the pier at an estimated cost of £225, less \$110, the estimated value of the lumber."

The Town Clerk reported that he had been in correspondence with the owners of the "Christiana," who had referred him to their Protection Society in London.

The Council authorised the Town Clerk to consult Liverpool agents, and obtain any legal advice he might consider necessary.

SS Christiana

Cafwyd trychineb ym mis Rhagfyr 1914 pan fu'r agerlong fasnach, y Christiana, mewn gwrthdrawiad â'r pier yn ystod storm, gan falu gwllch o 150 troedfedd drwy'r strwythur. Lluniwyd llwybr dros dro gan y Royal Anglesey Engineers ond ni wnaed atgyweiriadau iawn tan 1922, pan ddarganfuwyd namau difrifol eraill ar y strwythur. Rhoddwyd gwaith trwsio ychwanegol ar waith a gwnaed

gwelliannau i'r lanfa hefyd. Ond o ganol yr 1920au, roedd poblogrwydd y pier yn dechrau edwino wrth i wasanaethau bws dod yn lle'r fferis ac roedd y llongau teithwyr mawr yn gwneud Bangor yn

anymarferol fel glanfa. Dechreuodd y sioeau adloniant ddirywio yn y cyfnod hwn hefyd ac erbyn dechrau'r 1930au, roedd y pier yn gwneud colledion trwm a dechreuwyd gofyn cwestiynau am ddoethineb cadw'r pier a'i wasanaethau ym mherchnogaeth y cyhoedd.



Y Pier wedi 1945

Torrodd yr Ail Ryfel Byd ar draws unrhyw gynlluniau oedd ar waith a thynnwyd rhan o ddecin y pier i atal goresgynwyr y gelyn rhag defnyddio'r pier. Pan ddaeth y rhyfel i ben roedd y pier mewn cyflwr truenus iawn gyda rhai'n credu mai'r unig beth i'w wneud oedd ei ddymchwel neu ei werthu. Ond ni ddigwyddodd yr un o'r rhain a gwnaeth y cyngor welliannau i'r pier gan annog ei ddefnydd at bethau fel dawnsfeydd. Serch hynny, roedd y pier yn dod i gyfnod lle'r oedd yn parhau i golli arian a dirywio'n strwythurol.



Dangosodd arolwg ar ddiwedd yr 1960au fod y pier yn dirywio'n ddifrifol ac wedi mynd yn anniogel, ac yn 1971 nid oedd dewis gan y cyngor ond cau'r pier. Osgowyd ei ddymchwel yn llwyr gan Gyngor Dosbarth Arfon, perchennog y pier erbyn hynny yn dilyn adrefnu llywodraeth leol yn

1974, a hynny o un bleidlais yn unig. Rhoddwyd ymdrechion eraill i'w ddymchwel o'r neilltu pan sicrhodd Cyngor Cymuned Dinas Bangor statws Gradd II* i'r pier. Pan gafodd ei restru'r flwyddyn honno, roedd Arolygydd Adeiladau Rhestredig Prydain yn ei ystyried "y gorau ym Mhrydain o'r math hwn o bier heb bafiliwn mawr ar ochr y tir". Yn ddiweddarach byddai'r Cyngor yn cymryd perchnogaeth o'r pier yn 1978 am 1c ac yn addo'i adfer. Amcangyfrifwyd y byddai'r gwaith adfer yn costio £470,000, swm oedd y tu hwnt i allu'r Cyngor Cymuned i'w fforddio, ac felly dechreuwyd ar waith codi arian dwys.

Ffurfiwyd y Grŵp Ffrindiau Pier Bangor cyntaf yn y Garth yng nghanol yr 1970au a chodwyd proffil y pier a chodwyd cryn dipyn o arian gyda digwyddiadau fel Prynu Styllen, sawl Raffl, Dawnsfeydd, Bingo, Boreau Coffi a sawl achlysur arall i helpu i godi arian i waith ail-adeiladu'r pier yn yr 1980au. Cafwyd llawer o weithgareddau codi arian gwahanol ar y pier dros y degawdau wedyn, yn cynnwys pethau fel gorymdeithiau Hetiau Pasg, Cystadleuaeth *Birdman*, Seremonïau Rhyddid RAF Fali a rali hen geir.


Ym mis Hydref 1982, gyda chefnogaeth ariannol gan nifer o gyrff yn cynnwys Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Asiantaeth Datblygu Cymru, Cronfa Goffa Treftadaeth y Loteri, a'r Cyngor Adeiladau Hanesyddol, gallodd y gwaith adfer ddechrau.

Rhoddodd cynllun a sefydlwyd gan Gomisiwn Gwasanaethau'r Gweithlu waith tymor byr ar y prosiect i bobl ddi-waith lleol. Cynyddodd y costau yn sgil tywydd drwg a chafwyd y cyllid ychwanegol gan gynllun nawdd lle gellid noddi gwahanol rannau o'r pier am symiau rhwng £5 a £2,500. Darparwyd nawdd ychwanegol hefyd i adeilad pen y pier a gatiu addurniadol y fynedfa. Enillodd y pier Wobr Tywysog Cymru yn 1983 a gwobr gadwraeth Europa Nostra yn 1988. Yn olaf, ym mis Mai 1988, ar gost o £3 miliwn, agorwyd y pier a oedd wedi'i adfer yn fendigedig, gan Ardalydd Môn.



Y Pier yn yr 21ain ganrif

Cafwyd cyfnod eithaf digyffro wedyn a'r pier yn dal i fod yn boblogaidd gyda thrigolion Bangor ac ymwelwyr i'r ddinas, a'r Ystafelloedd Te yn y pen draw yn dod yn enwog am ei sgons ardderchog. Fodd bynnag, nid oedd y strwythur yn cael ei gynnal a'i gadw fel y dylai ac erbyn 2011 roedd hi'n amlwg fod problemau'n datblygu gyda sylfeini'r pier.



Bangor Garth Pier, North Wales, 2011 o'r gyfres Pierdom © Simon Roberts

Fel y soniwyd yn flaenorol, ym mis Awst 2017

gwelwyd dechrau prosiect adfer £1m a anelwyd at sicrhau dyfodol Pier Bangor am flynyddoedd i ddod. Roedd y prosiect, a ariannwyd yn uniongyrchol gan Gyngor Dinas Bangor, yn golygu gwaith i gryfhau'r strwythur a hefyd rhoi canllawiau newydd ar ddec y pier. Roedd angen cryn dipyn o sgaffaldiau ar hyd ochrau'r pier ac roedd yn rhaid i'r gwaith gydymffurfio â mesurau iechyd a diogelwch llym.



Llun: Evans Wolfenden Partnership

Erbyn Mehefin 2020, roedd cynlluniau i greu Grŵp Menter Pier Bangor fyddai'n cynnwys Cyngor Dinas Bangor, y busnesau preifat sy'n gweithredu ar y pier, a grŵp newydd o wirfoddolwyr cymunedol - Gwirfoddolwyr Pier Bangor. Ailstrwythurwyd y grŵp yn ddiweddarach a'i ail-enwi'n Ffrindiau Pier Garth Bangor (FBG). ac ym mis Mawrth 2021, llofnodwyd



Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gan Gyngor Dinas Bangor ac FBGP. Cymerodd y Ffrindiau eu cartref newydd ar y Pier (Ciosg Rhif 3) ym mis Ebrill 2021 fel canolfan i werthu nwyddau sy'n gysylltiedig â'r pier a helpu ymhelwyr drwy eu gwirfoddolwyr.

Llun uchod: SportpicturesCymru

Y Dyfodol

Fel y gwelir felly, mae'r pier wedi cael hanes amrywiol dros ei 125 mlynedd, yn llawn uchafbwyntiau ac isafbwyntiau, a gyda'r gwaith adfer enfawr yn tynnu tua'r terfyn mae disgwyliadau'n codi am y 125 mlynedd nesaf. Mae gobaith y bydd ymdrech newydd i gael Cyllid Treftadaeth y Loteri yn caniatáu mwy o ddatblygiadau eto ar y pier fel ei fod yn gallu cynnal mwy o ddigwyddiadau a'i wneud yn gyrchfan arbennig ar Arfordir Gogledd Cymru.

Gellir defnyddio rhan o'r Gronfa arfaethedig i ddod â bywyd yn ôl i'r lanfa ac unwaith yn rhagor gweld cychod yn docio oddi ar y pier ar gyfer teithiau lleol. Byddai'r rhod yn gyflawn wedyn ac yn cynnig rhai o'r gweithgareddau hamdden mwyaf arbennig yn unrhyw le ar hyd Afon Menai a thu hwnt.

Ar wahân i geisio am grantiau pellach i ddatgloi gallu gwneud y pethau yma yn y dyfodol, mae Cyngor y Ddinas yn awyddus i barhau i ddathlu'r pier gyda chyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus a chyfraniadau ar-lein drwy gydol y flwyddyn ben-blwydd hon ac wedi hynny. Mae dyfodol disglair yn sicr i Bier Garth Bangor.



Lluniau: The Bangor Aye; Awyr Las

Gwybodaeth bellach

[Cyngor Dinas Bangor - Pier \(llyw.cymru\)](#)

[Pier Garth Bangor \(bangorpier.org\)](#)

[Bangor Garth – National Piers Society](#)

[Cymdeithas Ddinesig Bangor: Pier Garth Bangor](#)



[Cymdeithas Ddinesig Bangor: Canmlwyddiant Pier Bangor 1896-1996](#)

[Cymdeithas Ddinesig Bangor: Ail-agor Pier Bangor 1988](#)

[Piers in Wales - Simplon Postcards \(simplonpc.co.uk\)](#)

[History Points - Garth Pier](#)

[Notes: Bangor Garth Pier - Paintings of Piers](#)

[Bangor Pier - Neolithicsea.co.uk](#)

[Bangor Pier, Bangor, Gwynedd \(britishlistedbuildings.co.uk\)](#)

Ychwanegol / Eitemau newyddion

[Appeal for memories of HMS Clio school ship in Bangor \(Ionawr 2011\)](#)

[Garth Pier: The jewel in Bangor's crown \(Medi 2011\)](#)

[Bangor pier: potential £1m shortfall for maintenance work \(February 2012\)](#)

[Bangor pier overhaul: concern over potential cash shortfall \(February 2012\)](#)

[Could you be in this film shot 20 years ago on Bangor's Garth Pier? - North Wales Live \(dailypost.co.uk\) \(Chwefror 2017\)](#)

[HMS Conway immortalised in window on Bangor pier \(Mai 2017\)](#)

[Bangor's Garth Pier Restoration Fund £600,000 short \(Ebrill 2019\)](#)

[The Movable Feast held at Garth Pier attracted a large gathering of food and drink lovers \(Mai 2019\)](#)

[Swimmers complete Pier to Pier Challenge for #TeamIrfon \(Medi 2019\)](#)

[Amy officially lights up Bangor Pier for Christmas and the NHS \(Rhagfyr 2020\)](#)

[Bangor Pier to light up yellow as part of National Day of Reflection \(Mawrth 2021\)](#)

[Kiosk shop to open on Bangor Pier to mark 125th anniversary of landmark \(Ebrill 2021\)](#)